gofalwyr CYMRU

taflen wybodaeth

# Asesiadau

## Canllaw ar gael Asesiad yng Nghymru

**Mae llawer o ofalwyr yn ystyried ei bod yn haws parhau yn eu rôl ofalu os gallant gael rhywfaint o gymorth. Mae cynghorau lleol yn gallu darparu gofal a chymorth i bobl sydd angen gofal, a'u gofalwyr. Maen nhw’n gwneud penderfyniad am y cymorth y gallant ei ddarparu drwy gynnal asesiadau.**

## Cynnwys


Cefndir………………………………………………………………………2

Ar gyfer gofalwyr sydd angen cymorth…………………………………… .3

Ar gyfer oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt…....................11

Pryd y dylai oedolyn gael asesiad o anghenion? ………………………..11

Sut mae paratoi ar gyfer asesiad o anghenion? ..................................12

Ar gyfer Gofalwyr Ifanc………………………………………………..18

Gofalwyr sy’n rhieni plant anabl……………………………………...19

Asesiadau ar gyfer plant y mae angen gofal a chymorth arnynt……....20

Symud Ardal…………………………………………………………………23

Codi tâl am wasanaethau gofal a chymorth………………………………23

Cwynion……………………………………………………………………...25

Atodiad……………………………………………………………………...26

Rhagor o gymorth…………………………………………………………30

# Cefndir

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn diddymu mwyafrif y ddeddfwriaeth gofal cymunedol flaenorol a'i bwriad yw trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yng Nghymru yn gymwys i bobl mewn angen, o unrhyw oedran, ac mae'n cyflwyno'r un hawliau i ofalwyr ag sydd gan y bobl maent yn gofalu amdanynt. Cynhelir asesiad o anghenion gofalwr os yw'n ymddangos eich bod chi angen cymorth neu'n debygol o fod angen cymorth yn y dyfodol.

Bellach mae gennych chi hawl gyfreithiol i asesiad o anghenion gofalwr waeth pa faint neu ba fath o ofal a ddarparwch, eich sefyllfa ariannol neu faint o gymorth allech chi fod ei angen. O'r blaen, roedd rhaid i chi ofyn. Bellach, unwaith y mae'n amlwg i gyngor lleol y gallai fod arnoch angen cymorth, rhaid iddo gynnig asesiad i chi.

Mae gennych chi'r hawl i asesiad waeth a ydych chi'n byw gyda'r sawl rydych chi'n gofalu amdano ai peidio. Os ydych chi'n rhannu cyfrifoldebau gofalu gyda rhywun neu rywrai arall, yn cynnwys plentyn o dan 18 oed, mae gan bob un ohonoch yr hawl i gael eich asesu ar wahân.

Gallwch gael asesiad o anghenion waeth a yw'r sawl rydych chi'n gofalu amdano wedi cael asesiad ei hun ai peidio neu waeth a yw'r sawl rydych chi'n gofalu amdano wedi cael asesiad ond bod y cyngor lleol wedi penderfynu nad yw'n gymwys i gael cymorth.

Os yw'r sawl rydych chi'n gofalu amdano yn cael asesiad ei hun ar gyfer ei anghenion, gall y cyngor lleol gyfuno'r asesiad o'r sawl rydych chi'n gofalu amdano gyda'ch asesiad chi fel eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn cyflenwi ei gilydd ond ni ddylid gwneud hyn heb eich caniatâd. Ni ddylai'r cyngor gymryd yn ganiataol eich bod chi'n gallu diwallu unrhyw anghenion a'ch bod yn abl ac yn barod i wneud hynny heb siarad â chi yn gyntaf. Mae'r asesiad ar gyfer y sawl rydych chi'n gofalu amdano yn cael rhagor o sylw nes ymlaen yn y daflen ffeithiau hon.

# Ar gyfer gofalwyr sydd angen cymorth

## Beth yw asesiad o anghenion gofalwr?

Hawl gyfreithiol yw asesiad o anghenion gofalwr ac mae gan bob gofalwr, beth bynnag fo'i oed, sy'n gofalu am rywun anabl, sâl neu hen yr hawl hon. Gallwch ddewis gofyn am asesiad o anghenion gofalwr cyn penderfynu dechrau gofalu am rywun.

Os yw'r cyngor lleol o'r farn fod angen cymorth arnoch o bosib, rhaid i'r cyngor lleol asesu a oes gennych chi angen am gymorth (neu fod hynny'n debygol yn y dyfodol), ac os felly, beth yw'r anghenion hynny. Mae'r asesiad yn gyfle i drafod gyda'ch cyngor lleol pa gymorth neu wasanaethau y gallech fod eu hangen i'ch helpu gyda'ch gofalu. Mae yna ddyletswydd gyfreithiol glir ar y cyngor lleol i ystyried y canlynol:

- rhaid iddo asesu a oes gennych chi anghenion cymorth neu fod hynny'n debygol yn y dyfodol
- i ba raddau rydych chi'n abl ac yn barod i ddarparu gofal ac yn parhau i fod yn abl ac yn barod i wneud hynny
- beth sy'n bwysig i chi a'r canlyniadau personol rydych chi'n dymuno eu cyflawni
- i ba raddau y gall cymorth, gwasanaethau ataliol, darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth eich helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny
- rhaid i'r asesiad ystyried a ydych chi'n gweithio, yn dymuno gweithio ac a ydych chi'n cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden

## Pryd ddylech chi dderbyn asesiad o anghenion gofalwr?

Fel gofalwr mae gennych chi hawl gyfreithiol i asesiad. Dylai asesiad gael ei gynnig cyn gynted ag y mae'n ymddangos i gyngor lleol fod gennych chi angen am gymorth o bosib. Dylai pob cyngor lleol gynnig gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Os nad ydych chi wedi cael cynnig asesiad, dylech gysylltu â'r cyngor a gofyn am un.

Ar y pwynt cyswllt cyntaf, gellir cynnal asesiad wyneb yn wyneb dros y ffôn, galwad fideo neu drwy ffurflen. Os rhoddir cyngor neu gymorth, yna bydd asesiad syml o'ch anghenion wedi'i gynnal. Gelwir hyn yn aml yn ‘Sgwrs Beth sy’n Bwysig’. Os yw’r cyngor lleol yn fodlon ar y cam hwn fod gennych anghenion cymorth pellach, yna mae’n rhaid i’r cyngor lleol fynd â’r asesiad i’r cam nesaf a chwblhau asesiad cynhwysfawr o’ch anghenion.

## Sut mae paratoi am asesiad o anghenion gofalwr?

Dylai’r asesiad fod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai chi yw’r person gorau i benderfynu ar eich llesiant a’r canlyniadau rydych chi am eu cyflawni.

I baratoi ar gyfer yr asesiad, bydd hi’n fuddiol rhoi ychydig o amser i chi’ch hun i feddwl am sut mae gofalu yn effeithio arnoch chi. Meddyliwch am y canlyniadau rydych chi am eu cyflawni yn eich bywyd o ddydd i ddydd a beth allai wneud gwahaniaeth i’ch helpu i gyflawni’r canlyniadau hynny neu unrhyw gymorth neu gynhorthwy a allai eich helpu gyda gofalu. Trowch at y cwestiynau yn yr Atodiad i’ch helpu i baratoi.

▶▶ **Nodwc:** Gallwch weld cwestiynau i helpu i chi paratoi yn Atodiad 1 ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

## Sut caiff yr asesiad o anghenion gofalwr ei gyflawni?

Rhaid i’r cyngor lleol sicrhau bod unigolyn penodedig yn gyfrifol am drefnu a chynnal yr asesiad. Rhaid i’r cyngor lleol gadw cofnod ysgrifenedig o’r asesiad a chynnig copi i chi. Os oes cyfarfod yn rhan o’r asesiad, dylid ei gynnal mewn man cyfleus a phreifat. Chi sydd i ddewis a yw’r sawl rydych chi’n gofalu amdano yn bresennol ai peidio. Gellir cynnal asesiadau dros y ffôn neu ar-lein ond ni ddylai hyn ddigwydd heb eich caniatâd chi. Gallai’ch cyngor lleol gynnal hunanasesiad a gynorthwyir. Byddai hyn yn golygu eich bod chi’n llenwi holiadur hunanasesu, ac yna bod y cyngor lleol yn cysylltu â chi i drafod eich atebion.

Mewn rhai ardaloedd, gallai’r cyngor ofyn i sefydliadau lleol gynnal yr asesiadau ond dylai’r trefniadau gael eu gwneud drwy’ch cyngor lleol er hynny a dylai egluro pwy fydd yn cynnal yr asesiad. Dylai’r asesiad gael ei gynnal gan weithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol hyfforddedig arall.

Bydd yr asesiad yn ystyried a yw’ch rôl ofalu yn effeithio ar eich iechyd neu’n eich atal rhag cyflawni’ch canlyniadau llesiant ai peidio. Er enghraifft, gallent gynnwys parhau i weithio, cael bywyd cymdeithasol, gallu mynychu apwyntiadau meddygol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Dylai’r asesiad roi sylw i’r canlynol:

- eich rôl ofalu a sut mae'n effeithio ar eich bywyd a'ch llesiant
- eich iechyd – problemau corfforol, meddyliol ac emosiynol
- eich teimladau a'ch dewisiadau ynghylch gofalu
- gwaith, astudio, hyfforddiant, hamdden
- perthnasoedd, gweithgareddau cymdeithasol a'ch nodau
- tai
- cynllunio at argyfwng

Dylai'r aseswr eich holi am y materion hyn. Os na, gallwch sôn amdanynt eich hun. Nod yr asesiad yw'ch helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnoch, waeth a yw'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan y cyngor lleol neu drwy ddarparu gwybodaeth i chi am wasanaethau lleol yn yr ardal i'ch helpu i drefnu eich cymorth eich hun.

Os yw lefel yr angen sydd gennych yn amrywio, rhaid i'r cyngor lleol ystyried hyn er mwyn datblygu darlun llawn o'ch lefel o angen. Bydd patrwm yr anghenion y gallwch eu diwallu eich hunan neu anghenion y gallech fod angen help neu gymorth ychwanegol gyda nhw yn amrywio dros amser yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Nid yw'r rheswm dros yr amrywiad hwn yn bwysig, efallai oherwydd bod cyflwr y person yr ydych yn gofalu amdano yn amrywio, neu oherwydd bod gennych gyfrifoldebau eraill a allai effeithio arnoch o bryd i'w gilydd.

## Sut bydd y cyngor lleol yn penderfynu os yw fy anghenion fel gofalwr yn gymwys i gael cymorth ganddo?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno rheolau cenedlaethol ar gyfer penderfynu pwy sy'n gymwys i gael gofal a chymorth. Y cyngor lleol fydd yn penderfynu a yw'ch anghenion yn gymwys o dan y rheolau cymhwystra ac a oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol i'w diwallu. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn cynnwys pwerau yn ôl disgresiwn i alluogi cynghorau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth heb orfod penderfynu am gymhwystra.

Wrth gynnal asesiad rhaid i'r cyngor lleol:

- geisio canfod sut mae gofalu yn effeithio ar eich bywyd a pha ganlyniadau rydych chi am eu cyflawni er mwyn gofalu am eich llesiant eich hun
- asesu a allai darparu cymorth, gwasanaethau ataliol,gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy eich helpu i gyflawni'r canlyniadau llesiant hynny
- ystyried pa ganlyniadau llesiant rydych chi am eu cyflawni a gweithio gyda chi i ganfod atebion.

Er mwyn bodloni'r meini prawf cymhwystra i gyngor lleol ddarparu cymorth, neu drefnu i ddarparu cymorth, mae'r canlyniadau llesiant y mae'n rhaid i angen ymwneud â nhw wedi'u nodi fel a ganlyn yn y rheoliadau:

- y gallu i gyflawni arferion hunanofal neu arferion domestig
- amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod
- ymglymiad mewn gwaith, addysg, dysgu neu mewn gweithgareddau hamdden
- cynnal neu ddatblygu perthnasoedd teuluol neu rai personol eraill o bwys
- datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymglymiad yn y gymuned; neu
- gyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn.

Nodwch: Gallwch weld y diffiniad o lesiant a geir yn y Ddeddf yn Atodiad 2 ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

Wrth ystyried eich llesiant a'r canlyniadau personol rydych chi am eu cyflawni, bydd y cyngor lleol yn ystyried:

- mai chi sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar eich llesiant
- y dylid ystyried eich safbwyntiau, dymuniadau, teimladau a chredoau
- pwysigrwydd lleihau anghenion presennol, ac atal neu ohirio datblygiad anghenion
- dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar eich amgylchiadau, nid ar ragdybiaethau amdanoch chi
- dylech allu cyfrannu cymaint â phosibl at benderfyniadau
- mae angen cydbwyso anghenion y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal
- yr angen i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- dylai unrhyw gyfyngiadau ar hawliau neu ryddid gael eu cadw mor fach â phosibl.

Mae'r rheoliadau'n datgan y byddwch yn bodloni'r meini prawf cymhwystra os na allwch chi ddiwallu eich angen:

- ar eich pen eich hun
- gyda chymorth pobl eraill sy'n barod i ddarparu'r cymorth hwnnw, neu
- gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan yr oedolyn fynediad atynt; a
- bod yr oedolyn yn annhebygol o gyflawni ei ganlyniadau personol oni bai bod y cyngor lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth i ddiwallu'r angen

Byddai hyn yn awgrymu, er enghraifft, os gallai'ch anghenion gael eu diwallu gan adnoddau yn y gymuned, nid ydynt yn anghenion cymwys. I sicrhau eich bod chi'n cael yr help rydych ei angen, eglurwch pan nad yw hyn yn wir – er enghraifft, pe bai aelodaeth o gampfa yn eich helpu chi ond

na allwch ei fforddio heb gymorth ariannol gan y cyngor, yna gofalwch fod hyn yn cael ei gofnodi a'i ysgrifennu yn y cynllun cymorth fel nad oes amheuaeth ei fod yn angen cymwys.

## Pa gymorth allech chi ei gael

**Gwybodaeth a chyngor**

Rhaid i'r cyngor lleol sicrhau bod gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar gael. Dylai pawb, yn cynnwys y rheini sydd wedi cael gwybod nad yw eu hanghenion yn gymwys i gael cymorth, gael gwybodaeth a chyngor gan y cyngor lleol ynghylch y canlynol:

- cyngor ar sut i gael gofal a chymorth
- gwasanaethau a darparwyr gofal yn yr ardal leol
- sut i gael cyngor ariannol
- sut i gael mynediad at wasanaethau a allai ohirio neu atal eich anghenion rhag cynyddu
- sut i fynegi pryderon am lesiant oedolyn sydd ag angen am ofal a chymorth neu ofalwr sydd angen cymorth
- canlyniad y cysylltiad, a pha gamau gweithredu, os o gwbl, fydd yn cael eu cymryd a chan bwy

Os tybir ar hyn o bryd nad ydych yn gymwys i gael cymorth, efallai mai dim ond gwybodaeth a chyngor y byddwch yn ei dderbyn gan eich cyngor lleol. Dylai'r wybodaeth a'r cyngor fod yn lleol i'ch cartref a gallai, er enghraifft, fod yn arweiniad i wasanaeth cymorth i ofalwyr lleol. Nid oes angen i chi gael unrhyw fath o asesiad i gael mynediad at wybodaeth gan y dylai hwn fod ar gael am ddim gan eich cyngor lleol.

## Cynllun cymorth

Os bydd eich cyngor lleol yn penderfynu bod eich anghenion yn gymwys, yna cyn belled â'ch bod eisiau iddo wneud hynny, mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol i ddiwallu'r anghenion hyn.

Gall y cyngor lleol ddarparu'r gwasanaethau ei hun neu drefnu gwasanaethau drwy sefydliadau eraill. Fel arall, gallwch ofyn am gael derbyn taliadau uniongyrchol i brynu eich pecyn eich hun o gymorth i ddiwallu eich anghenion cymwys. Rhaid llunio cynllun cymorth sy'n nodi sut bydd yr anghenion hyn yn cael eu diwallu a rhaid i chi gael cynnig copi o'r cynllun hwn.

Efallai y bydd eich cyngor lleol yn codi tâl arnoch am wasanaethau neu efallai na fydd yn codi tâl. Os bydd yn codi tâl arnoch, rhaid iddo gynnal asesiad ariannol i benderfynu a oes rhaid i chi wneud cyfraniad ariannol ac, os felly, faint bydd disgwyl i chi ei gyfrannu. Os nad oes tâl am yr help a gynigir i chi, yna nid oes rhaid i'r cyngor lleol wneud asesiad ariannol.

Rhaid i'ch cynllun cymorth gynnwys disgrifiad o'r canlynol:

- eich anghenion cymwys
- y canlyniadau personol rydych chi am eu cyflawni
- y camau gweithredu i'w cymryd gan y cyngor lleol neu sefydliadau neu bobl eraill i'ch helpu i gyflawni'ch canlyniadau personol neu ddiwallu eich anghenion cymwys
- trefniadau ar gyfer monitro i ba raddau y mae'r canlyniadau personol wedi cael eu cyflawni
- trefniadau ar gyfer adolygu'r cynllun cymorth. Rhaid cytuno ar hyn ar ddechrau'r cynllun ac ym mhob adolygiad wedyn.

**Rhai enghreifftiau o'r math o gymorth a allai fod ar gael i chi fel gofalwr os ydych chi'n gymwys i gael cymorth:**

- cymorth i fynd a dod, ffioedd tacsi, gwersi gyrru, gwaith trwsio ac yswiriant
- costau car lle mae trafnidiaeth yn hanfodol

- technoleg i'ch cynorthwyo chi. Er enghraifft: ffôn symudol neu gyfrifiadur lle nad oes modd defnyddio gwasanaethau cyfrifiadurol llyfrgell leol
- cymorth gyda gwaith tŷ neu'r ardd
- cymorth i leddfu straen, gwell iechyd a hyrwyddo lles fel aelodaeth o gampfa

**Rhai enghreifftiau o'r math o gymorth y gallai fod ar gael i'r sawl rydych chi'n gofalu amdano er mwyn eich helpu chi fel gofalwr**

- newidiadau i gartref person anabl i'w wneud yn fwy addas
- offer fel teclyn codi neu ganllaw cydio
- gweithiwr gofal i helpu i ddarparu gofal personol gartref
- arhosiad dros dro mewn gofal preswyl/gofal seibiant
- prydau'n cael eu dosbarthu i gartref person anabl
- lle mewn canolfan ddydd
- cymorth gyda theithio, er enghraifft, i gyrraedd canolfan ddydd
- gwasanaethau golchi dillad
- gofal amgen er mwyn i chi gael hoe

## Y Dull Cyfan

Os oes gan yr oedolyn neu blentyn rydych chi'n gofalu amdano ei anghenion ei hun am ofal a chymorth, yna mae dyletswydd ar y cyngor lleol i gynnal asesiad os yw'n ymddangos bod ganddo angen.

Os yw'r person rydych chi'n gofalu amdano yn derbyn asesiad, gall cynghorau lleol gyfuno'r asesiad o'r person rydych chi'n gofalu amdano gyda'ch asesiad chi fel eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn cyflenwi ei gilydd. Dylid cael eich caniatâd cyn gwneud hyn. Yr unig eithriad yw yn achos plant o dan 16 oed lle gellir cyfuno asesiad os yw'r cyngor yn fodlon y byddai cyfuno'r asesiad o anghenion yn cyd-fynd â llesiant y plentyn ac y byddai'n fuddiol ym marn y cyngor.

# Ar gyfer oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt

## Beth yw asesiad o anghenion?

Cynhelir asesiad o anghenion ar gyfer oedolion (18 oed a throsodd) y gall fod angen cymorth arnynt oherwydd anabledd, afiechyd neu henaint. Mae'n rhaid i'r asesiad ystyried anghenion iechyd corfforol, iechyd meddwl ac iechyd emosiynol person, ac mae dyletswydd glir ar y cyngor lleol i ystyried y canlynol:

- anghenion y person a sut maent yn effeithio ar ei ofal
- y pethau sy'n bwysig i'r person, er enghraifft, cymorth i wisgo neu gymorth i fynd i'r gwaith
- dewisiadau a nodau'r person, er enghraifft os yw am ymgymryd â gweithgaredd newydd neu gynnal perthynas, a dewisiadau ar gyfer ei ofal o ddydd i ddydd
- y mathau o wasanaethau, gwybodaeth, cyngor, cyfleusterau ac adnoddau a fydd yn atal neu'n oedi datblygiad anghenion eraill, gan helpu'r person i gadw'n iach am fwy o amser (er enghraifft, gall y cyngor lleol gynnig cyfnod o ailalluogi i'r person er mwyn lleihau anghenion ac adennill sgiliau, cyn cwblhau'r asesiad)
- anghenion teulu'r person sy'n cael ei asesu

# Pryd y dylai oedolyn gael asesiad o anghenion?

Mae dyletswydd cynghorau lleol i asesu oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn cael ei sbarduno pan ddaw angen i'r amlwg, a rhaid cwblhau asesiad waeth beth yw 'lefel' yr anghenion hynny neu lefel adnoddau ariannol y person. Yr enw am hyn yw asesiad o anghenion. Hyd yn oed os ydych chi, fel gofalwr, yn darparu'r holl ofal sydd ei angen ar y person, mae ganddo hawl i asesiad o hyd. Fel gofalwr, mae gennych chi hawl i gyfrannu at yr asesiad os mai dyna yw dymuniad y person rydych chi'n gofalu amdano.

Pan fo'n ymddangos i gyngor lleol y gall fod ar oedolyn anghenion am ofal a chymorth, mae gan y cyngor ddyletswydd i gynnal asesiad, waeth beth yw barn y cyngor lleol ar lefel yr angen am ofal a chymorth neu lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r oedolyn.

## Sut mae paratoi ar gyfer asesiad o anghenion?

Er mwyn paratoi ar gyfer yr asesiad, mae'n ddefnyddiol i chi a'r person rydych chi'n gofalu amdano ystyried anghenion corfforol, anghenion meddwl ac anghenion emosiynol y person, gan gynnwys ei nodau, ei ddymuniadau a'i ddewisiadau. Hefyd, mae'n rhaid i'r cyngor lleol ystyried anghenion llesiant y person, sydd wedi'u diffinio yn Atodiad 2 i'r daflen ffeithiau hon.

## Sut mae asesiad o anghenion yn cael ei gynnal?

Os nad yw'r person rydych chi'n gofalu amdano wedi cael cynnig asesiad, dylech chi ffonio'ch cyngor lleol, ysgrifennu ato neu ei e-bostio er mwyn gofyn am asesiad.

Fel arfer, bydd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol hyfforddedig arall yn cynnal y cyfarfod asesu wyneb yn wyneb. Dylid cynnal y cyfarfod mewn lle cyfleus a phreifat, fel arfer yng nghartref y person sy'n derbyn gofal. Gall aelod o deulu neu ffrind y person sy'n derbyn gofal, neu weithiwr cymorth o asiantaeth cyngor leol, fynychu'r cyfarfod os bydd hynny o gymorth.

Mae modd cynnal asesiad dros y ffôn neu ar-lein, ond dim ond os yw'r person yn cytuno â hynny. Gall y dulliau hyn fod yn briodol os yw'r person yn gallu cyfleu ei anghenion yn hawdd dros y ffôn neu ar-lein. Mae asesiadau ar-lein neu dros y ffôn yn annhebygol o fod yn addas ar gyfer pobl nad oes ganddynt alluedd neu bobl ag anawsterau cyfathrebu.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gofyn i sefydliadau lleol gynnal asesiad, ond dylai'r gwasanaethau cymdeithasol barhau i wneud y trefniadau. Dylai'r cyngor lleol egluro pwy fydd yn cynnal yr asesiad, a dylai'r asesydd fod wedi cael hyfforddiant. Os yw anghenion cymhleth iawn yn cael eu trafod, dylid sicrhau bod asesydd ag arbenigedd neu wybodaeth arbenigol yn cymryd rhan yn yr asesiad.

Gall yr oedolyn gwblhau hunanasesiad hefyd os yw'n cytuno i wneud hynny a bod ganddo alluedd i wneud hynny. Bydd y cyngor lleol yn parhau i gymryd rhan er mwyn helpu i gynorthwyo'r broses a'i fodloni ei hun bod y person wedi nodi ei holl anghenion.

Yn ôl y gyfraith, dylai cynghorau lleol weithredu'n briodol er mwyn sicrhau bod anghenion a dymuniadau'r person sy'n cael ei asesu yn cael eu nodi, er enghraifft drwy sicrhau bod ganddo gymaint o gyswllt â'r cyngor lleol ag sydd ei angen.

## Eiriolwr annibynnol

Mae'n rhaid i'r cyngor ddarparu eiriolwr annibynnol ar gyfer y person rydych chi'n gofalu amdano er mwyn ei gynorthwyo gyda'r broses asesu (ac ar ôl hynny) o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os nad yw'n derbyn cymorth, bydd gan y person 'anhawster sylweddol' yn mynegi ei ddymuniadau, neu'n deall, yn cofio ac yn asesu gwybodaeth yn ystod yr asesiad, ac
- nad oes unrhyw berson priodol arall ar gael sy'n gallu helpu'r person ac sy'n barod i wneud hynny

# Sut bydd y cyngor lleol yn penderfynu a yw'r oedolyn rwy'n gofalu amdano yn gymwys i dderbyn cymorth?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno rheolau cenedlaethol i benderfynu pwy sy'n gymwys ar gyfer gofal a chymorth. Y cynghorau lleol sy'n parhau i benderfynu a yw anghenion yr oedolyn yn bodloni'r rheolau ai peidio, ac a oes ganddo'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio gan y gyfraith yn 'anghenion cymwys'.

Wrth gynnal asesiad o anghenion, mae'n rhaid i'r cyngor lleol:

- geisio canfod y canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno eu sicrhau mewn bywyd o ddydd i ddydd
- asesu a allai darparu i) gofal a chymorth; ii) gwasanaethau ataliol neu (iii) wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion a nodir gan yr asesiad, ac os felly, i ba raddau, ac
- asesu a allai materion eraill gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau

Mae'n rhaid i'r asesiad gynnwys yr oedolyn, a phan fo'n ddichonadwy, gofalwr yr oedolyn, os yw'r person yn cydsynio â hynny.

Mae anghenion gofal a chefnogaeth y sawl rydych yn gofalu amdano yn gorfod bod yn sgil cyflwr corfforol neu feddyliol. Gall hyn gynnwys anableddau neu salwch corfforol, meddyliol, synhwyrol, dysgu neu wybyddol, camddefnyddio sylweddau neu anaf i'r ymennydd. Nid oes angen diagnosis ffurfiol.

Er mwyn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i sicrhau bod cyngor lleol yn darparu, neu'n trefnu i ddarparu, gofal a chymorth, mae'r rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i 'angen' ymwneud â'r canlyniadau llesiant canlynol:

- gallu i gyflawni arferion hunanofal neu arferion domestig
- amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod
- ymglymiad mewn gwaith, addysg, dysgu neu mewn gweithgareddau hamdden
- cynnal neu ddatblygu perthnasoedd teuluol neu rai personol eraill o bwys
- datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymglymiad yn y gymuned; neu
- cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn

Wrth ystyried a yw'r person yn gallu sicrhau'r canlyniadau uchod, mae'r gyfraith yn nodi bod rhaid i'r cyngor ystyried unrhyw anawsterau sydd gan y person. Nodir nad yw'r person yn gallu sicrhau'r canlyniad os nad yw'n gallu diwallu'r angen, naill ai:

- ar ei ben ei hun
- gyda chymorth eraill sy'n fodlon darparu'r cymorth hwnnw, neu
- gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan yr oedolyn fynediad iddynt; a
- bod yr unigolyn yn annhebygol o sicrhau ei ganlyniadau personol oni bai bod y cyngor lleol yn darparu neu yn trefnu gofal a chymorth i ddiwallu'r angen

Mae hyn yn awgrymu nad yw unrhyw angen sy'n cael ei ddiwallu gan ofalwr yn 'angen cymwys'. Felly, mae'n bwysig eich bod yn nodi'n glir pa anghenion penodol rydych chi'n fodlon ac yn gallu eu diwallu er mwyn eu cynnwys yn y cynllun gofal.

Fodd bynnag, mae'r Cod Ymarfer sy'n ategu'r Ddeddf yn nodi bod gan bawb hawl i asesiad o anghenion os yw'n ymddangos bod angen gofal a chymorth arnynt - hyd yn oed os yw gofalwr yn darparu'r gofal a'r cymorth hwnnw. Dylai anghenion y person rydych chi'n gofalu amdano gael eu

cofnodi fel bod y cyngor lleol yn gallu ymateb yn briodol ac yn gyflym os nad yw'r gofalwr yn gallu, neu nad yw'n fodlon, diwallu rhai neu bob un o'r anghenion gofal a chymorth dynodedig.

## Y cymorth posibl sydd ar gael i berson yn dilyn penderfyniad am ei anghenion

### Gwybodaeth a chyngor

Mae'n rhaid i bawb, gan gynnwys oedolion sydd ag anghenion nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth, dderbyn gwybodaeth a chyngor gan y cyngor lleol ar bob un o'r canlynol:

- manylion yr anghenion dynodedig
- sut i ddod o hyd i ofal a chymorth
- y darparwyr a'r gwasanaethau gofal y gallant eu dewis yn eu hardal
- sut i gael gafael ar gyngor ariannol
- sut i fynegi pryderon am faterion diogelu, h.y. beth i'w wneud os oes pryderon bod person agored i niwed yn wynebu risg o niwed neu esgeulustod
- sut i gael gafael ar wasanaethau ataliol sy'n gallu atal eu hanghenion rhag cynyddu, neu arafu'r broses honno

### Cynllun gofal a chymorth

Os yw'ch cyngor lleol yn penderfynu bod gan yr oedolyn rydych chi'n gofalu amdano anghenion cymwys, mae'n rhaid i'r cyngor lleol lunio cynllun gofal (os mai dyna yw dymuniad y person) sy'n nodi sut y bydd yr anghenion yn cael eu diwallu, a chynnig copi iddo.

Os yw anghenion cymwys yr oedolyn rydych chi'n gofalu amdano eisoes yn cael eu diwallu mewn rhyw ffordd (e.e. gennych chi fel gofalwr), nid oes angen i'r cyngor lleol diwallu'r anghenion, ond mae'r canllawiau yn nodi'n glir bod angen cofnodi'r anghenion yn y cynllun gofal. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyngor lleol yn gallu ymateb yn briodol ac yn gyflym os nad ydych chi'n fodlon neu nad ydych chi'n gallu diwallu rhai o'r anghenion a nodwyd.

Os nad ydych chi'n fodlon neu nad ydych chi'n gallu parhau i ddiwallu angen gofal, bydd hyn yn arwain at newid sylweddol yn amgylchiadau'r oedolyn rydych chi'n gofalu amdano, gan olygu bod angen i'r cyngor lleol

ailasesu anghenion gofal a chymorth yr oedolyn. Fel gofalwr, mae gennych chi hawl i gymryd rhan yn y broses hon os yw'r person rydych chi'n gofalu amdano yn cytuno. Ni all y cyngor ragdybio yn gyfreithlon eich bod yn gallu neu'n fodlon diwallu anghenion yr oedolyn. Felly, mae'n bwysig eich bod yn nodi'n glir pa lefel o ofal rydych chi'n fodlon, ac yn gallu, ei ddarparu.

Os nad yw anghenion cymwys yr oedolyn rydych chi'n gofalu amdano eisoes yn cael eu diwallu mewn rhyw ffordd, mae gan y cyngor lleol rwymedigaeth gyfreithiol i ddiwallu'r anghenion hynny os mai dyna yw dymuniad yr oedolyn. Gall y cyngor lleol ddarparu gwasanaethau eu hunain, neu drefnu gwasanaethau drwy sefydliad arall. Fel arall, gall y person rydych chi'n gofalu amdano ofyn am daliadau uniongyrchol, sef taliadau sy'n ei alluogi i brynu gwasanaethau i ddiwallu ei anghenion cymwys.

Oni bai bod y cyngor lleol yn darparu gwasanaeth perthnasol am ddim, mae'n rhaid i'r cyngor lleol gwblhau asesiad ariannol i benderfynu a oes angen i'r oedolyn rydych chi'n gofalu amdano wneud cyfraniad, ac os felly, faint o gyfraniad. Yng Nghymru, ni ellir codi mwy na £100 yr wythnos ar gyfer gofal cymdeithasol amhreswyl (2024/2025).

Mae'n rhaid i'r cynllun gofal gynnwys disgrifiad o'r canlynol:

- anghenion cymwys y person
- y canlyniadau personol
- y camau i'w rhoi ar waith gan y cyngor lleol a'r camau i'w rhoi ar waith gan bersonau eraill i helpu'r person i sicrhau'r canlyniadau personol neu fel arall ddiwallu ei anghenion cymwys
- y trefniadau ar gyfer monitro i ba raddau y mae'r canlyniadau personol wedi'u sicrhau
- y trefniadau ar gyfer adolygu'r cynllun. Mae'n rhaid cytuno ar y dyddiad hwn ar ddechrau'r cynllun gofal a chymorth a phob adolygiad wedyn.

**Dyma rai enghreifftiau o'r math o gymorth a allai fod ar gael i'r person rydych chi'n gofalu amdano:**

- newidiadau i wneud cartref y person anabl yn fwy addas
- cyfarpar fel teclyn codi neu reilen i afael ynddi

- gweithiwr gofal i helpu i ddarparu gofal personol yn y cartref
- cyfnod dros dro yn aros mewn gofal preswyl/gofal seibiant
- prydau bwyd yn cael eu cludo i gartref y person anabl
- lle mewn canolfan ddydd
- cymorth gyda theithio, er enghraifft i gyrraedd canolfan ddydd
- gwasanaethau golchi dillad
- gofal amgen i roi seibiant i chi.

## Dull Gweithredu Cyfan

Mae cynghorau yn cael eu hannog i ystyried cyfuno asesiadau o bobl yn yr un teulu, er enghraifft asesiad o'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal, gan sicrhau bod yr asesiadau wedi'u cysylltu ac yn ategu ei gilydd.

Yn yr un modd, weithiau mae modd cynnal asesiad ar y cyd ag asiantaeth arall, fel y GIG, er mwyn sicrhau bod pob un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal person yn siarad â'i gilydd wrth wneud penderfyniadau am ofal.

Os yw oedolyn anabl yn derbyn gofal a'i bod yn ymddangos bod plentyn yn ymwneud â'r gofal hwnnw, mae gan y cyngor lleol ddyletswydd i:

- ystyried effaith anghenion yr oedolyn anabl ar y plentyn –yn benodol, yr effaith ar lesiant, lles, addysg a datblygiad y plenty
- nodi a yw'r plentyn yn gorfod cyflawni tasgau amhriodol, o ystyried yr holl amgylchiadau.

# Ar gyfer Gofalwyr Ifanc

Mae gofalwyr ifanc yn blant o dan 18 oed sydd â chyfrifoldebau gofal. Byddant yn cael eu hasesu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) bellach.

Asesu yw cam cyntaf y broses o helpu plentyn a'i deulu. Mae ystyriaethau penodol yn berthnasol i anghenion plant. Mae'n rhaid i'r asesiad ystyried anghenion datblygiadol y plentyn, ac unrhyw amgylchiadau eraill a fydd yn effeithio ar lesiant plentyn, gan gynnwys amgylchiadau lle mae rhieni'r plentyn wedi'u hasesu a bod ganddynt anghenion gofal a chymorth. Yn ogystal â chanolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu sicrhau yn ei fywyd o ddydd i ddydd, mae'n rhaid i'r asesiad geisio nodi'r canlyniadau y mae'r rhai â chyfrifoldeb rhiant yn dymuno eu sicrhau. Mae'n rhaid cynnal asesiad o'r graddau y gallai darparu gofal a chymorth, gwasanaethau ataliol a/neu ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy gyfrannau at y canlyniadau hynny.

Bydd y broses asesu ar gyfer plant yn parhau â'r gofyniad bod ymarferwyr yn casglu tystiolaeth gan y tri pharth o'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd er mwyn llywio'r cynllun gofal a chymorth os oes angen.

Mae'n rhaid gwrth-droi penderfyniad i wrthod cynnal asesiad os yw hynny'n anghyson â llesiant plentyn.

**Nodwch:** Gallwch weld y diffiniad o lesiant a geir yn y Ddeddf yn Atodiad 2 ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

# Gofalwyr sy’n rhieni plant anabl

Mae gofalwr sy’n rhiant yn berson dros 18 oed sy’n darparu gofal ar gyfer plentyn anabl (o dan 18 oed) y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto.

Mae’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol asesu gofalwyr sy’n rhieni pan ddaw angen i’r amlwg neu pan fydd y rhiant yn gofyn am asesiad. Mae modd cyfuno’r asesiad hwn ag asesiad ar gyfer y plentyn anabl, a gallai’r un person gynnal y ddau asesiad ar yr un pryd.

Hefyd, mae’n rhaid i’r cyngor lleol ei fodloni ei hun bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn berthnasol i’r plentyn a’i deulu.

Wedyn, mae’n rhaid i’r cyngor lleol asesu:

- a oes gan ofalwr sy’n rhiant anghenion cymorth, a beth yw’r anghenion hynny
- a yw’n briodol i’r rhiant ddarparu, neu barhau i ddarparu, gofal ar gyfer y plentyn anabl, o ystyried anghenion cymorth y rhiant, ei anghenion eraill a’i ddymuniadau.

Hefyd, mae’n rhaid i asesiad o anghenion gofalwr sy’n rhiant ystyried:

- llesiant y gofalwr sy’n rhiant
- yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn sy’n derbyn gofal, ac unrhyw blentyn arall y mae gan y gofalwr sy’n rhiant gyfrifoldeb rhiant drosto.

# Asesiadau ar gyfer plant y mae angen gofal a chymorth arnynt

## Beth yw asesiad o anghenion plentyn?

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi diddymu Rhan III o Ddeddf Plant 1989. Mae dyletswyddau cynghorau lleol ac eraill tuag at blant y mae angen gofal a chymorth arnynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf bellach. Roedd Deddf 1989 yn cyfeirio at 'les y plentyn' ond mae Deddf 2014 yn defnyddio'r term 'llesiant', sy'n cael ei ddiffinio yn Atodiad 2 ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

O ran plentyn, mae hyn yn cynnwys:

- datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989.

Mae'r ddyletswydd yn berthnasol waeth beth yw'r lefel neu'r math o gymorth sydd ei angen, neu lefel adnoddau ariannol y plentyn neu unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

Yr Asesiad yw cam cyntaf y broses o helpu plentyn a'i deulu a'i ofalwyr. Mae'n rhaid i'r asesiad ystyried anghenion datblygiadol y plentyn, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar lesiant y plentyn. Yn ogystal â chanolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu sicrhau, mae'n rhaid i'r asesiad geisio nodi'r canlyniadau y mae'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn dymuno eu sicrhau.

Gall cyngor lleol gyfuno asesiad oedolyn neu asesiad plentyn ac asesiad o anghenion gofalwr os yw'n credu y bydd yn fuddiol gwneud hynny ac os yw'r gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal (neu'r person â chyfrifoldeb rhiant os yw'r sawl sy'n derbyn gofal yn blentyn) yn cytuno.

Mae'n rhaid i'r cyngor lleol lunio cofnod ysgrifenedig o'r asesiad a chynnig copi o'r asesiad i'r plentyn neu unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant neu unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y plentyn oni bai y byddai gwneud hynny'n anghyson â llesiant y plentyn.

Mae'r asesiad yn ystyried yr holl gymorth y gall fod ei angen ar y plentyn, anghenion unrhyw blant eraill yn y teulu a'r cymorth a fydd ei angen o bosibl i ofalu am y plentyn anabl. Mae modd cyfuno'r asesiad hwn â'r

asesiad o anghenion y gofalwr sy'n rhiant, neu asesiad o anghenion addysg y plentyn.

## Sut mae mynd ati i drefnu asesiad o anghenion?

Gallwch chi ofyn am asesiad drwy gysylltu â'ch cyngor lleol. Dylech egluro bod eich plentyn yn anabl neu ei fod yn blentyn mewn angen a'ch bod eisiau asesiad o anghenion eich plentyn a'ch teulu.

Dylech chi ddisgrifio amhariad eich plentyn, a gallech gyflwyno copi o unrhyw ddiagnosis o anabledd eich plentyn (os oes un gennych chi). Disgrifiwch yr anawsterau sy'n eich wynebu a'r math o gymorth yr hoffech chi ei gael. Fel arfer, bydd gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â chartref eich plentyn i gynnal yr asesiad, ond gall asiantaethau eraill fod yn rhan o'r broses hefyd, gan gynnwys asiantaethau iechyd ac addysg.

## Beth fydd natur yr asesiad?

Fel rhan o'r asesiad, bydd angen casglu gwybodaeth (drwy siarad â chi, siarad â'ch plentyn a siarad â phobl allweddol eraill ym mywyd eich plentyn); asesu'r wybodaeth hon a phenderfynu a yw unrhyw un o anghenion eich plentyn neu'ch teulu yn gymwys ar gyfer gwasanaethau cymorth gan y cyngor lleol, a sicrhau bod y cymorth hwn yn cael ei ddarparu.

## Sut y dylwn i baratoi am yr asesiad?

Gall yr awgrymiadau canlynol fod yn ddefnyddiol i'ch helpu i baratoi am yr asesiad:

- paratoi ffeil sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am eich plentyn, gan gynnwys llythyrau, adroddiadau meddygol, nodiadau ac ati gan feddygon teulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Hefyd, gall tystiolaeth berthnasol gynnwys llythyrau/datganiadau gan aelodau'r teulu, ffrindiau, gweithwyr proffesiynol eraill neu unrhyw un sy'n gyfarwydd â'ch sefyllfa.
- gallech chi drefnu cael cymorth gan rywun yn ystod yr asesiad, fel eiriolwr neu weithiwr proffesiynol, os ydych chi'n credu y bydd hynny'n ddefnyddiol.

- dylech chi ystyried ymlaen llaw yr hyn rydych chi am ei ddweud, er enghraifft, egluro anghenion eich plentyn, effaith y gwaith gofal arnoch chi a'ch teulu, a'r canlyniad rydych chi'n gobeithio ei sicrhau yn dilyn yr asesiad.
- dylech chi ystyried unrhyw risgiau y gallwch chi, eich plentyn anabl neu unrhyw aelod arall o'r teulu eu hwynebu os nad yw cymorth yn cael ei ddarparu.
- dylech chi gadw nodiadau o'r cyfarfod asesu a fydd yn ddefnyddiol i chi, gan nodi unrhyw benderfyniadau.

## Pa gymorth posibl sydd ar gael i fy mhlentyn?

Mae enghreifftiau o'r mathau o wasanaethau sydd ar gael yn cynnwys:

- cymorth ymarferol yn eich cartref, fel cymorth yn y cartref, gofal personol, cyfarpar neu wasanaeth eistedd gyda phobl
- gwasanaethau y tu allan i'r cartref fel clwb ar ôl yr ysgol neu gynllun chwarae yn ystod y gwyliau
- cymorth teithio a mathau eraill o gymorth gofal cymdeithasol fel bod eich plentyn yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu addysg
- addasu'r cartref a chyfleusterau yn y cartref
- gwyliau
- gofal seibiant byr dros dro neu ofal seibiant neu ddarparu llety mwy hirdymor.

Hefyd, gall y cyngor lleol ddarparu gwasanaethau i gynorthwyo'r teulu a'ch cynorthwyo chi fel gofalwr.

## Codi tâl am wasanaethau gofal a chymorth ar gyfer plenty

Ni all cyngor lleol godi tâl am ofal a chymorth ar gyfer plentyn.

### Unigolion sy’n pontio i fyd oedolion

Mae pontio o fyd plentyn i fyd oedolyn yn cael ei ystyried yn newid sylweddol mewn amgylchiadau, ac mae’n arwain at hawl unigolyn i gael ailasesiad o’i anghenion.

## Symud ardal

### Mae’r person rydych chi’n gofalu amdano yn symud i ardal cyngor lleol arall yng Nghymru

Os yw’r person rydych chi’n gofalu amdano yn derbyn gwasanaethau neu gymorth drwy gynllun gofal a chymorth, a’i fod wedi hysbysu’r cyngor lleol y bydd yn symud i ardal arall yng Nghymru, mae’n rhaid i’r cyngor hwnnw (y cyngor anfon) hysbysu’r ail gyngor (y cyngor derbyn).

Mae’n rhaid sicrhau bod y wybodaeth sydd yn yr asesiad ac sydd yng nghynllun gofal a chymorth y cyngor anfon yn cael ei rhoi yn syth i’r cyngor derbyn, a’i bod yn cael ei defnyddio yn sylfaen cymorth nes bod y cyngor derbyn wedi cwblhau asesiad newydd.

Nid yw’r trefniadau hygludedd hyn yn berthnasol i gynlluniau gofal a chymorth sydd wedi’u darparu o dan bwerau disgresiwn y cyngor lleol. Yn yr achosion hyn, nid oes gan y cyngor derbyn ddyletswydd i roi trefniadau pontio ar waith.

Os nad yw’r cyngor derbyn yn gwneud penderfyniad yn ymwneud â gofal a chymorth cyn i’r person symud, mae’n rhaid i’r cyngor derbyn ddiwallu’r anghenion a nodwyd yn flaenorol gan y cyngor anfon, i’r graddau y bo hynny’n rhesymol ymarferol.

Os ydych chi’n symud i ardal arall y tu allan i Gymru, mae disgwyl y bydd arferion da yn croesi ffiniau cenedlaethol er mwyn lleihau unrhyw aflonyddu posibl. Dylech chi ofyn am gyngor ar hyn. Gallwch chi gysylltu â Gofalwyr Cymru – gweler y dudalen olaf am fanylion cyswllt.

## Codi tâl am wasanaethau gofal a chymorth

Gall cyngor lleol benderfynu a yw am godi tâl am wasanaethau ai peidio, ac er bod y Ddeddf ei hun yn caniatáu i gyngor godi tâl ar riant neu warcheidwad, mae’r Rheoliadau a’r Cod Ymarfer yn atal hyn. Felly, ni all cyngor lleol godi tâl am ofal a chymorth plentyn.

Hefyd, mae’r Ddeddf yn cyflwyno’r gallu i godi tâl isel, cyfradd safonol ar gyfer amrywiaeth eang o wasanaethau ataliol a chymorth sy’n cael eu darparu neu eu trefnu gan y cyngor. Fel arfer, bydd tâl cyfradd safonol yn berthnasol i’r gwasanaethau gofal a chymorth sy’n disodli gwasanaethau bywyd bob dydd, er enghraifft pethau fel prydau bwyd, gwasanaethau golchi dillad ac ati. Os yw cyngor lleol yn codi tâl cyfradd safonol, neu’n pennu cyfraniad cyfradd safonol neu ad-daliad, nid oes gan gyngor lleol ddyletswydd i gwblhau asesiad ariannol. Fodd bynnag, mae’n rhaid i gynghorau lleol ystyried taliadau cyfradd safonol er mwyn osgoi sefyllfa lle mae effaith ariannol gronnol y rhain yn golygu na ellir eu fforddio. Os oes pryderon yn codi, mae’n rhaid i gynghorau lleol gynnig asesiad ariannol i’r person.

Os yw gwasanaethau’n cael eu darparu, mae’n rhaid i’r cyngor lleol gwblhau asesiad ariannol i benderfynu a oes angen cyfraniad ariannol, ac os felly, swm y cyfraniad hwnnw. Os yw’r cymorth yn cael ei gynnig am ddim, nid oes angen i’r cyngor lleol gwblhau asesiad ariannol. Ni ellir codi mwy na £100 yr wythnos (Ebrill 2024) am wasanaethau sy’n cael eu darparu i chi neu i’r person rydych chi’n gofalu amdano.

Os yw’r person rydych chi’n gofalu amdano wedi cael ei asesu, mae’n bosibl y byddech yn elwa ar y gwasanaethau sy’n cael eu darparu ar ei gyfer, er enghraifft, gwasanaeth eistedd gyda pherson. Ni all y cyngor lleol godi tâl arnoch am unrhyw gymorth sy’n cael ei ddarparu i’r person rydych chi’n gofalu amdano, hyd yn oed os yw’r cymorth hwn wedi’i ddarparu o ganlyniad i asesiad o’ch anghenion fel gofalwr.

Os ydych chi’n derbyn cymorth neu wasanaethau yn eich hawl eich hun fel gofalwr, mae’r Cod Ymarfer sy’n cyd-fynd â’r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i gyngor lleol ystyried effaith debygol unrhyw daliadau, yn enwedig o safbwynt eich parodrwydd a’ch gallu i barhau â’ch cyfrifoldebau gofal. Os yw’r cyngor lleol yn penderfynu codi tâl, mae’n rhaid iddo gwblhau asesiad ariannol a phenderfynu a fydd angen i chi wneud cyfraniad ariannol ar gyfer unrhyw un o’r gwasanaethau neu’r mathau o gymorth rydych yn eu derbyn, a’ch hysbysu am faint y disgwylir i chi ei gyfrannu. Eto, ni all y cyngor lleol godi mwy na £100 yr wythnos (Ebrill 2024) am wasanaethau sy’n cael eu darparu i chi.

# Cwynian

## Asesiadau

Os ydych chi'n anfodlon â'ch triniaeth neu â chanlyniad unrhyw un o'r asesiadau, gallwch gwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylai holl adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol fod â system gwynion y gallwch chi ei dilyn – gofynnwch i adran y gwasanaethau cymdeithasol am gopi.

Os ydych chi'n anfodlon â chanlyniad eich cwyn, mae'n bosibl y byddwch yn gallu mynd â'ch cwyn i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Gallwch ofyn i'ch adran gwasanaethau cymdeithasol am ragor o wybodaeth am hyn.

Os yw'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gweithredu'n anghyfreithlon (e.e. wedi gwrthod cwblhau asesiad heb reswm da), mae'n bosibl y byddwch yn gallu cymryd camau cyfreithiol yn eu herbyn. Yr enw am hyn yw adolygiad barnwrol. Bydd angen i chi ofyn am gyngor cyfreithiol os ydych chi'n ystyried mynd â'r cyngor lleol i'r llys. Bydd angen gwneud cais am adolygiad barnwrol yn ddi-oed, ac ymhen tri mis o leiaf, felly mae'n bwysig gofyn am gyngor cyfreithiol cyn gynted ag y bo modd.

## Gwasanaethau

Os ydych chi'n anfodlon â'r gwasanaethau sydd wedi'u darparu yn dilyn asesiad, gallwch gwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol. Os yw'r gwasanaethau yn cael eu darparu gan asiantaeth neu gartref gofal, mae'n bosibl y byddwch yn gallu cwyno'n uniongyrchol iddyn nhw gan ddefnyddio eu system gwynion eu hunain. Os oes gennych chi bryderon ynglŷn ag ansawdd y gwasanaeth, gallwch gysylltu ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am gwynion, neu i gael cyngor ar sut i gwyno, cysylltwch â Gofalwyr Cymru.

# Atodiad 1 - Cwestiynau i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich asesiad o anghenion gofalwr

Trwy ateb y cwestiynau canlynol, dylech gael syniad gwell o lawer o'ch anghenion. Yna gallwch drafod gyda'ch aseswr (sy'n gorfod meddu ar sgiliau a chymwysterau addas ac wedi cwblhau hyfforddiant addas) y gwasanaethau a allai fod fwyaf defnyddiol i chi ddiwallu'r anghenion hyn.

**Cymorth ac amser**

Ydych chi'n helpu'r sawl rydych chi'n gofalu amdano gyda:

- gwaith tŷ?
- siopa?
- mynd i'r toiled?
- coginio?
- gofal personol arall?
- cadw llygad arno?
- trin arian?
- y golch?

Am sawl awr yr wythnos fyddwch chi'n darparu gofal? Dylech gynnwys yr holl amser rydych chi'n ei dreulio gyda'r sawl rydych chi'n gofalu amdano, y pethau rydych chi'n eu gwneud ar ei gyfer, a faint o amser maen nhw'n ei gymryd i chi.

- oes rhaid i chi roi cymorth yn ystod y dydd neu'r nos, neu'r ddau?
- oes unrhyw un arall yn helpu? Os felly, am faint o amser?
- hoffech chi gymorth (neu gymorth ychwanegol) gyda'r tasgau hyn?Rhestrwch y tasgau yr hoffech chi gymorth gyda nhw (gan roi'r rhai pwysicaf yn gyntaf).
- ydych chi'n gallu treulio digon o amser ar gyfrifoldebau teuluol eraill, e.e. bod gyda'ch plant, eich partner, rhieni neu frodyr/chwiorydd?

## Iechyd

- oes gan y sawl rydych chi'n gofalu amdano unrhyw broblemau iechyd rydych chi'n ei chael hi'n anodd delio â nhw? Disgrifiwch nhw mor fanwl ag y gallwch chi.
- oes gennych chi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch am gyflwr y sawl rydych chi'n gofalu amdano fel y gallwch ofalu'n llawn amdano?
- ydy gofalu yn cael effaith negyddol ar eich iechyd? Oes gennych chi unrhyw broblemau iechyd? Os felly, ydy'ch rôl ofalu yn eu gwaethygu? Disgrifiwch nhw mor fanwl ag y gallwch chi.
- ydy unrhyw broblemau iechyd sydd gennych yn gwneud gofalu yn anoddach i chi?
- ydych chi'n cael digon o gwsg? Ydy'ch cwsg chi'n cael ei amharu?
- ydych chi'n teimlo o dan straen neu'n isel?
- ydy gofal yn eich atal chi rhag gofalu am eich iechyd eich hun, h.y. eich deiet, maethiad, gwneud ymarfer corff ac ati?

## Teimladau a dewisiadau am eich rôl ofalu

- ydych chi'n teimlo nad oes gennych chi unrhyw ddewis ond darparu gofal?
- os ydych chi'n teimlo na allwch chi barhau o gwbl, neu nad ydych chi'n gallu parhau heb leihau faint o ofal rydych chi'n ei gynnig, dywedwch wrth yr aseswr. Mae teimlo fel hyn yn gyffredin iawn ac mae'n bwysig iddo neu iddi wybod eich gwir deimladau.
- beth fyddech chi'n hoffi ei newid fwyaf am eich sefyllfa?
- oes cynllun ar waith i ofalu am y person rydych chi'n gofalu amdano pe na fyddech chi, yn sydyn, yn gallu gofalu am ba reswm bynnag?

## Gwaith/astudio/hamdden

- ydych chi'n gweithio? Os felly, am sawl awr yr wythnos?
- ydy'ch cyflogwr chi'n gwybod eich bod chi'n ofalwr – ydy e neu hi'n gwybod am eich hawliau, e.e. amser i ffwrdd mewn argyfwng?

- ydych chi'n teimlo eich bod chi'n gallu ymdopi â gweithio a darparu gofal? Os na allwch chi ymdopi neu fod perygl na allwch ymdopi – eglurwch hyn.
- beth fyddai'n gwneud gweithio/gofalu yn haws i chi?
- hoffech chi ddechrau neu ailgydio mewn gwaith/astudio?
- oes gennych chi'r sgiliau fyddai eu hangen arnoch i ddychwelyd i'r gwaith neu addysg pe bai'ch rôl ofalu yn dod i ben?
- oes pethau sy'n rhoi mwynhad i chi ac sy'n eich ymlacio na allwch eu gwneud mwyach oherwydd eich cyfrifoldebau gofalu? (e.e. hobi, ymweld â ffrindiau, mynd i'r sinema).
- pryd oedd y tro diwethaf i chi gael diwrnod cyfan i chi'ch hun i wneud fel y mynnoch?
- ydych chi'n gallu cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu?

**Tai**

- ydych chi'n byw gyda'r sawl rydych chi'n gofalu amdano? A yw'r trefniant yn foddhaol? Os na, pam?
- ydy'r sawl rydych chi'n gofalu amdano yn cael anhawster symud o gwmpas ei gartref? (e.e. ydy e'n gallu dringo'r grisiau, neu gael bath ar ei ben ei hun?)
- oes rhaid i chi roi help llaw iddo? Os felly, ydych chi'n gallu gwneud hyn yn ddiogel a heb achosi unrhyw boen neu anaf i chi eich hun?Gallai offer arbennig wneud bywyd yn haws i'r sawl rydych chi'n gofalu amdano a gwneud gofalu yn haws i chi.
- ydych chi'n gallu gofalu am eich cartref eich hun, oes gennych chi ddigon o amser i wneud y gwaith tŷ a chadw'ch tŷ fel yr hoffech chi?

# Atodiad 2

Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant fel un o'r canlynol:

- iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- cyfraniad a wneir at y gymdeithas
- sicrhau hawliau a hawlogaethau
- llesiant cymdeithasol ac economaidd
- addasrwydd llety preswyl

O ran oedolyn, mae 'llesiant' hefyd yn cynnwys:

- rheolaeth ar fywyd pob dydd
- cymryd rhan mewn gwaith

O ran plentyn, mae 'llesiant' hefyd yn cynnwys:

- datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- 'lles' fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol 'welfare' yn Neddf Plant 1989

# Rhagor o gymorth

I gael gwybodaeth a chyngor ffoniwch Linell Gyngor Carers UK ar

> **0808 808 7777** (ar agor o ddydd Llun a dydd Mawrth, 10am i 4pm) neu e-bostiwch **advice@carersuk.org**

Gwybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan **www.carersuk.org**

# Cymorth arall

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

Mae eich Cyngor Iechyd cymunedol lleol yn darparu cymorth a chyngor os oes gennych broblemau neu gwynion am Wasanaeth y GIG yng Nghymru. Ffoniwch y bwrdd Cyngor Iechyd Cymuned neu ewch i'w gwefan i ganfod eich swyddfa leol.

g: www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan | ff: 029 2023 5558

e: enquiries@waleschc.org.uk

Gofalwyr Cymru

g: www.carerswales.org | ff: 029 2081 1370

e: info@carerswales.org

Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb

Mae'r llinell gymorth yn cynghori ac yn cynorthwyo unigolion ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb a Hawliau Dynol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

g: www.equalityadvisoryservice.com | ff: 0808 800 0082

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gall gynnig cyngor ac ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

g: www.ombudsman-wales.org.uk | ff: 01656 641150 / 0300 790 0203

e: ask@ombudsman-wales.org.uk

## Pobl Hŷn

### Age Cymru

Gall gynnig cymorth a chyngor i bobl hŷn a'u rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau a all helpu.

g: www.ageuk.org.uk/cymru | ff: 08000 223444 / 029 2043 1555

### Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Gall gynnig cymorth a chyngor i bobl hŷn a'u rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau a all helpu.

g: www.olderpeoplewales.com | ff: 03442 640670 / 029 20445030

e: ask@olderpeoplewales.com

## Plant

### Comisiynydd Plant Cymru

Gall gynnig cefongaeth i blant a phobl ifanc a'u helpu i gael gwybod am eu hawliau.

g: www.complantcymru.org.uk | ff: 01792 765600 / 01492 523333 / 0808 801 1000 (rhif ar gyfer plant a phobl ifanc)

e: post@childcomwales.org.uk

### Plant yng Nghymru

Sefydliadau elusennol sy'n hyrwyddo buddiannau ac sy'n gweithredu i adnabod a chwrdd ag anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru.

g: www.plantyngnghymru.org.uk | ff: 029 2034 2434

e: info@childreninwales.org.uk

### Cyswllt Teulu

Elusen genedlaethol sy'n cefnogi teulueoedd â phlant anabl.

g: www.cafamily.org.uk | ff: 0808 808 3555 / 029 2039 6624

e: cymru@cafamily.org.uk

## Cymorth cyfreithiol

### Cyngor ar Bopeth Cymru

Darparu cyngor annibynol, cyfrinachol a diduedd am ddim.

g: www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/ | ff: 0800 702 2020

## Iechyd meddwl

### Mind Cymru

Darparu cyngor a chefnogaeth i unrhyw un sy'n dioddef â problem iechyd meddwl.

g: www.mind.org.uk | ff: 0300 123 3393 / 029 2039 5123

e: info@mind.org.uk

### Adferiad Recovery

Gweithio gydag unigolion sy'n gwella o salwch iechyd meddwl difrifol a'u teuluoedd.

g: www.adferiad.org.uk | ff: 01792 832400 | e: info@adferiad.org

Yn ogystal â'r rhestr uchod, mae elusennau ar gyfer afiechydon penodol a allai gynnig cymorth, e.e. Parkinson's UK, Y Gymdeithas Strôc, Y Gymdeithas Alzheimer, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, ac ati

Hefyd, mae yna lu o grwpiau a sefydliadau cymorth yn barod i helpu yn lleol. Ewch i www.carersuk.org/localsupport i weld beth sydd ar gael yn eich ardal chi.

## Llinellau Cymorth Budd-daliadau

Lwfans Gweini

ff: 0800  731 0122 (ffôn testun: 0800 731 0317)

Lwfans Gofalwyr

ff: 0800 731 0297 (ffôn testun: 0800 731 0317)

Budd-daliadau i Bobl Anabl

- Ganwyd cyn 8/4/1948:

ff: 0800  731 0122(ffôn testun: 0800 731 0317)

- Ganwyd ar ôl 8/4/1948

ff: 0800 121 4600 (ffôn testun: 0800 121 4523)

Am Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm:

Canolfan Byd Gwaith

Hawliadau newydd ff: 0800 055 6688 (ffôn testun: 0800 023 4888)
Hawliadau presennol t ff: 0800 169 0310 (ffôn testun: 0800 169 0314)

Credyd Pensiwn

ff: 0800 731 7898 (ffôn testun: 0800 169 0133)

Tâl Annibyniaeth Bersonol

Hawliadau newydd ff: 0800 917 2222 (ffôn testun: 0800 917 7777)

Llinell cymorth ff: 0800 121 4433 (ffôn testun: 0800 121 4493)

Credyd Treth

ff: 0345 300 3900 (ffôn testun: 0345 300 3909)

# Mwy o daflenni gwybodaeth Gofalwyr Cymru





Mae rhifyn Gofalwyr Cymru 'Gofalu am rywun – gwybodaeth a chefnogaeth i ofalwyr' yw ein canllaw ar gyfer unrhyw un sy'n gofalu am deulu neu ffrindiau. Mae'r canllaw hwn yn amlinellu eich hawliau fel gofalwr ac yn rhoi trosolwg o'r cymorth ymarferol ac ariannol sydd ar gael.




Gall gofalu am rywun fod yn rhan fawr o'ch bywyd, ond mae'n anochel y bydd eich rôl ofalu yn newid dros amser. Gallai hyn fod oherwydd bod y sawl rydych chi'n gofalu amdano wedi gwella a does dim angen gofal arnynt mwyach, nid yw'n bosib gofalu amdano yn y cartref bellach, neu oherwydd ei fod wedi marw.

Mae'r adnodd hwn ar gyfer gofalwyr sy'n mynd drwy newid mawr yn eu bywydau. Mae'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael a'r camau y gallwch eu cymryd i'ch helpu chi drwy bob sefyllfa.


gofalwyr CYMRU

taflen wybodaeth

**Dod allan o'r ysbyty**

Mae penderfynu gofalu neu barhau i ofalu am rywun sy'n dod allan o'r ysbyty ac sydd ddim yn gallu gofalu amdanyn nhw eu hunain rhagor yn yr un ffordd ag o'r blaen yn gallu bod yn anodd. Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'ch hawliau fel gofalwr, y camau y dylid eu dilyn, a beth i'w wneud os fydd pethau'n mynd o chwith. Mae'n berthnasol i bobl sy'n byw yng Nghymru.

Cynnwys

Os yw'r person rydych yn gofalu amdano yn yr ysbyty ....2
Beth ddylai ddigwydd cyn caiff y person rwyf yn gofalu amdano ei ryddhauo'r ysbyty? ....3
Beth ddylai ddigwydd ar y diwrnod y caiff y person rwyf yn gofalu amdano ei ryddhau o'r ysbyty? ....5
Yn dilyn rhyddhau'r claf o'r ysbyty ....6
Rhyddhau cleifion o sefydliadau iechyd meddwl ....9
Pethau pwysig eraill i feddwl amdanynt os yw'r person rydych yn gofalu amdano yn yr ysbyty ....12
Cwynion ....13
Rhagor o gymorth ....16

2019/20 carersuk.org

Mae penderfynu gofalu neu barhau i ofalu am rywun sy'n dod allan o'r ysbyty ac sydd ddim yn gallu gofalu amdanyn nhw eu hunain rhagor yn yr un ffordd ag o'r blaen yn gallu bod yn anodd. Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'ch hawliau fel gofalwr, y camau y dylid eu dilyn, a beth i'w wneud os fydd pethau'n mynd o chwith. Mae'n berthnasol i bobl sy'n byw yng Nghymru.

Ar gyfer holl daflenni ffeithiau Gofalwyr Cymru ewch i:
www.carerswales.org

Nid yw'r daflen ffeithiau hon yn ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith. Ei nod yw rhoi gwybodaeth a chyngor defnyddiol. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein taflenni ffeithiau yn gywir ac yn cael eu diweddaru pan fydd angen, ond gall gwybodaeth newid dros amser. Dylech gysylltu â ni neu fynd i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Rhowch eich adborth ar y daflen ffeithiau hon drwy e-bostio eich sylwadau i: **info@carersuk.org** Roedd taflen ffeithiau hon wedi ei diweddaru Ebrill 2024. Dyddiad yr adolygiad nesaf Ebrill 2025

## Llinell gymorth Gofalwyr DU

Am wybodaeth a chyngor ar-benigol am ofalu.

**0808 808 7777**
(ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 10am i 4pm)

advice@carersuk.org

**Golfalwyr DU**
20 Great Dover Street
London SE1 4LX
020 7378 4999
info@carersuk.org

**Gofalwyr Cymru**
029 2081 1370
info@carerswales.org

## Mae Gofalwyr Cymru yn rhan o Carers UK, yn gweithio gyda'i gilydd i wneud bywyd yn well i ofalwyr.

**Bydd gofalu yn cael effaith ar bob un ohonom rhyw dro yn ein bywydau.**

**Gyda'ch cymorth chi gallwn fod yna i'r 6,000 o bobl hynny sy'n dechrau gofalu am rywun fesul diwrnod.**

**Ni yw'r unig elusen aelodaeth genedlaethol DU i ofalwyr. Rydym yn rhwydwaith cymorth a mudiad dros newid.**

**Os hoffech ymuno â ni, ein helpu neu gael mynediad at ragor o adnoddau ewch i'n gwefan.**

**carersuk.org**

Dywedwch wrthym sut y daethoch o hyd i'r canllaw hwn
www.surveymonkey.co.uk/r/ZN7JCYS

**Gellir gofyn am yr wybodaeth hon mewn print mawr neu fel ffeil destun, os dymunir**

© Carers UK 2024 Publication code W1020
Mae Gofalwyr Cymru un rhan o Carers UK yn elusen gofrestredig yn Lloegr (246329) ac yn yr Alban (SCO39307) ac yn gwmni cyfyngedig dan warrant cofrestredig yng Nghymru Lloegr (864097). Swyddfa gofrestredig: : 20 Great Dover Street, Llundain, SE1 4LX

**carerswales.org**